# Astudiaeth achos
# Ysgol Cwm Rhymni

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae Ysgol Cwm Rhymni (YCR) yn ysgol gyfun Gymraeg gyda 1,500 o ddysgwyr dros ddau safle. Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn dros ardal eang gan gynnwys Caerffili, Rhymni a Thredegar, am mai dyma'r unig ysgol gyfun Gymraeg yn sir Caerffili.**

Pan gafodd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) Cenedlaethol ei gyflwyno gyntaf ar ffurf ddrafft yn 2012, dechreuodd yr ysgol seilio ei gwaith cynllunio arno. Penodwyd dau aelod o staff ar dîm arwain yr ysgol i gymryd cyfrifoldeb dros gydlynu a gweithredu'r fframwaith, gyda'r Pennaeth Cynorthwyol yn arwain ar rifedd, a Dirprwy Bennaeth yr ysgol yn arwain ar yr elfennau llythrennedd. Cafodd y FfLlRh ei weithredu drwy gydol yr ysgol, gyda'r cydlynwyr Rhifedd a Llythrennedd yn gweithio'n agos gyda phennaeth pob adran trwy sesiynau cynllunio, ac yna lledu arfer gyda gweddill y staff drwy gyfrwng nifer o ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd.

Edrychwyd yn fanwl ar ofynion y fframwaith, er mwyn adnabod pa byncia u oedd eisoes yn defnyddio elfennau o rifedd neu lythrennedd, ac yna mapiwyd defnydd y fframwaith ar draws pynciau er mwyn adnabod ble roedd angen datblygu ymhellach. O ran rhifedd, canolbwyntiwyd yn bennaf ar y pynciau oedd yn defnyddio rhifedd fwyaf, ac felly'n gallu ymestyn y dysgwr yn fwy, sef daearyddiaeth, gwyddoniaeth, a thechnoleg.

Wrth gynllunio gwersi gan ddefnyddio'r FfLlRh, dechreuodd pob aelod o staff edrych yn fanwl ar linynnau'r fframwaith, cyn creu tasgau mathemategol nad oeddent wedi'u hymgorffori o fewn y pwnc yn barod. Yna, yn dilyn adborth gan ddysgwyr, aeth athrawon ati i gyfoethogi'r tasgau hyn, a'u gwneud yn fwy diddorol ar gyfer dysgwyr. Mae nifer o newidiadau wedi dod i'r amlwg yn sgil cyflwyno'r fframwaith ond y newid mwyaf yn ôl aelodau staff yw eu bod wedi sylweddoli sut y gall defnyddio'r fframwaith eu galluogi i gyfoethogi cynnwys eu gwersi, a phan fydd elfennau'r fframwaith yn cael eu plethu i gynllun gwers, mae'n atgyfnerthu sgiliau rhifedd y dysgwyr yn ogystal ag atgyfnerthu cynnwys y pwnc, a dyna lwyddiant mwyaf y fframwaith hyd yn hyn.

Yn ôl Martyn Rees, Pennaeth Technoleg:

**'Rydym yn awyddus i'r plant ddatblygu sgiliau y gallant eu defnyddio y tu allan i'r ysgol yn ogystal ag yn y dosbarth. Mewn gwersi technoleg er enghraifft, bydd dysgwyr yn dysgu sut mae mesur arwynebedd wal er mwyn cyfrifo sawl pot o baent fyddai angen arnynt i baentio'r wal gyfan.'**

Am fod athrawon ledled yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant, mae gan staff yn gyffredinol lawer mwy o hyder wrth ddefnyddio rhifedd. Nid yn unig ceir cysondeb ar draws y cwricwlwm ac ar draws dysgu yn yr ysgol, ond hefyd ceir hyblygrwydd fel bod dysgwyr nawr yn gallu defnyddio elfennau'r fframwaith, ond addasu'r dulliau maent yn eu defnyddio i ateb cwestiynau ac i gwblhau tasgau.

Ar ôl datblygu system dracio er mwyn adolygu datblygiad dysgwyr gan ddefnyddio'r fframwaith, mae'r ysgol bellach yn gallu adrodd yn ôl i rieni ar gynnydd dysgwyr nid yn unig o fewn pynciau ac ar draws y cwricwlwm, ond hefyd o ran sut mae elfennau rhifedd a llythrennedd wedi eu helpu i wella yn y dosbarth.

Er bod yr ysgol wedi gwneud cryn dipyn o waith ar weithredu'r fframwaith mae'n parhau i wneud gwaith mewn perthynas ag ef. Bydd yr ysgol er enghraifft, yn sicrhau ei bod yn parhau i gynnig hyfforddiant i aelodau staff ar sut i ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi yn sgil y fframwaith. Wrth sôn am y camau nesaf y bydd YCR yn eu cymryd dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol:

'Mae cynllun ar droed i roi mwy o amser i gydlynwyr gwrdd ag adrannau ar draws yr ysgol er mwyn cynnig cymorth a rhannu awgrymiadau ar sut i symud ymlaen i'r camau nesaf gyda rhifedd a llythrennedd, a'u datblygu ymhellach.'

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28407